













## Manylion y Barbeciw Haf:
## Heddiw yw'r diwrnod olaf i brynu tocynnau!

Mae'r tocynnau i'r barbeciw ar werth heddiw wrth y prif fynedfa am y tro olaf. Os nad ydych yn medru prynu wrth y giât ar ddiwedd y dydd, mae croeso i chi ddod i'r Swyddfa at Mrs Wendy James i brynu yn ystod y dydd. Medrwch dalu gydag arian parod neu gyda cherdyn.

Mae 4 math gwahanol o docyn:

| | |
|---|---|
| Selsig: £4.00 | Byrgyrs: £5.00 |
| Rhost (Porc): £6.50 | Byrgyr Figan: £4.50 |

Bydd rhaid prynu tocyn ymlaen llaw os ydych am fwyta ar noson y barbeciw. Ni fydd tocynnau ar werth ar y noson. Bydd mynediad am ddim.

## A fedrwch gyfrannu os gwelwch yn dda?

Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1,2,3 a 4 : SALAD
e.e salad cymysg, colslô, salad tatws ayyb (i ddod gyda chi i'r barbeciw ar y noson)

Blwyddyn 5 a 6 : LOSIN
e.e pecynnau bach/mawr (i gyrraedd yr ysgol erbyn dydd Mawrth 14eg o Orffennaf)

## Amserlen y perfformiadau

Bydd disgyblion yr ysgol yn canu ar y noson ar y llwyfan berfformio, gan ddilyn yr amserlen hon:

- 5:30 : Meithrin a Derbyn
- 5:50 : Blynyddoedd 1 a 2
- 6:10 : Blynyddoedd 3 a 4
- 6:30 : Blynyddoedd 5 a 6

## Ardal chwarae y plant

Bydd ardal chwarae ar gyfer y plant ar Gae Penweddig (£6 mynediad, yna popeth am ddim) gan gynnwys Castell Neidio, stocs, gêmau potes a mwy.

Bydd raffl ar werth ar y noson hefyd, dewch ag arian parod gyda chi.

## Dolen i gynnig cymorth ar y noson:

Barbeciw Haf 2026 - Summer BBQ 2026

## *Summer Barbecue Details:*
## *Today is the final day to buy tickets!*

*Barbecue tickets are on sale today at the main entrance for the last time. If you're unable to buy at the gate at the end of the day, you're welcome to go to the Office and see Mrs Wendy James to buy during the day. You can pay with cash/card.*

*There are 4 different types of ticket:*

| | |
|---|---|
| *Sausage: £4.00* | *Burger: £5.00* |
| *Roast (Pork): £6.50* | *Vegan Burger: £4.50* |

*You must buy a ticket in advance if you wish to eat at the barbecue evening. Tickets will not be available on the night. Entry will be free.*

## *Can you contribute, please?*

*Nursery, Reception, Years 1,2,3 & 4 : SALAD*
*e.g. mixed salad, coleslaw, potato salad, etc. (please bring with you on the evening of the barbecue)*

*Years 5 & 6: SWEETS*
*e.g. small/large bags (to arrive at school by Tuesday, 14th July)*

## *Performances timetable:*

*The schoolchildren will be singing on the evening on the performance stage:*

- 5:30 : Meithrin and Derbyn
- 5:50 : Years 1 and 2
- 6:10 : Years 3 and 4
- 6:30 : Years 5 and 6


## *Children's Play Area*

*There will be a children's play area at Penweddig Field (£6 entry, then everything is free), including a bouncy castle, stocks, games and more.*

*Raffle tickets will also be on sale on the night, so please bring cash with you.*

## *Link to offer support on the evening:*

Barbeciw Haf 2026 - Summer BBQ 2026




## WCW a'i ffrindiau

Cafodd disgyblion blynyddoedd 2, 3, a 4 gopiau am ddim o Wcw yr wythnos hon gyda diolch i Gylchgrawn Golwg am eu cyfrannu i'r ysgol i'w dosbarthu ymhlith y plant.

Mae'r cylchgrawn yn cynnwys pob math o adloniant i blant oed cynradd yn yr iaith Gymraeg.

## *WCW a'i ffrindiau*

*Pupils in Years 2, 3, and 4 received free copies of Wcw this week, thanks to Golwg magazine for donating them to the school to distribute among the children.*

*The magazine contains all kinds of entertainment for primary school-aged children in the Welsh language.*




## Her Ddarllen yr Haf

### Cyfrolau'n Canu

Mae Her Ddarllen yr Haf ar agor i bob plentyn yng Ngheredigion rhwng 4 ac 11 oed. **Ei nod yw annog plant i barhau i ddarllen a mwynhau llyfrau drwy gydol gwyliau'r haf.**

Bob tro y bydd plant yn ymweld â'r llyfrgell, dylent ddewis a darllen o leiaf dau lyfr. Ar bob ymweliad, byddant yn derbyn anrheg neu wobr fach i ddathlu eu cynnydd. Ar ddiwedd yr her, byddant yn derbyn tystysgrif a medal.

## *Summer Reading Challenge*

### *Read to the beat*

*The Summer Reading Challenge is open to all children in Ceredigion aged between 4 and 11.* ***Its aim is to encourage children to continue reading and enjoying books throughout the summer holidays.***

*Each time children visit the library, they should choose and read at least two books. On each visit, they will receive a small gift or reward to celebrate their progress. At the end of the challenge, they will receive a certificate and a medal.*





## Ffarwelio gyda staff

Wythnos nesaf byddwn yn ffarwelio â dwy aelod o staff. Hoffwn ddiolch i Mrs Hanna Evans am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y Meithrin a Derbyn, gan ddymuno'r gorau iddi i'r dyfodol.
Mae ein diolch yn enfawr i Mrs Rachel Hull sydd wedi bod yn rhan o'r ysgol ers dros bymtheg o flynyddoedd bellach, ac sydd wedi dod â llwyddiant mawr i ni fel hyfforddwraig ddawns. Byddwn yn gweld ei heisiau hi fis Medi yn sicr, ond yn falch iawn i rannu hefyd y bydd yn parhau i hyfforddi ein grwpiau dawns pan ddaw'r gwanwyn. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd fis Medi.

## *Farewell to Staff*

*Next week, we will be saying goodbye to two members of staff. I would like to thank Mrs Hanna Evans for her work over the past year in Nursery and Reception and wish her all the best for the future.*

*Our heartfelt thanks go to Mrs Rachel Hull, who has been part of the school for over fifteen years and has brought us great success as a dance coach. We will certainly miss her in September, but we are also very pleased to share that she will continue to coach our dance groups when spring comes around. We wish her all the best in her new role in September.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

🖰 Instagram – Ysgol Gymraeg


🖰 Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

🖰 Instagram – Ysgol Gymraeg

🖰 Instagram – P.T.A



### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

**Dyddiadau pwysig i ddod:**

- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17eg
- H.M.S nesaf : Medi 1af ac 2ail


***Upcoming important dates:***

- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16th*
- *Last day of term : July 17th*
- *Next INSET days : September 1st and 2nd*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**10/07/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru









HUFEN IÂ
dros yr haf!
ICE CREAM FRIDAYS!
Os ma'r tywydd yn caniatau / Weather permitting:
12.6. 26
19.6. 26
2.7. 26
(MABOLGAMPAU)
10.7. 26
Welwn ni chi wrth y gatiau! See you at the school gates!


FFAIR HAF
Cylch Meithrin Aberystwyth
mudiad meithrin
BLE: NEUADD YR YSGOL GYMRAEG
PRYD: 15/07/26
AMSER: 4-5YP
MYNEDIAD: £3
Gemau Potes i'r teulu
Mefus a Hufen
Lemonêd
Cacennau
Raffl
CROESO CYNNES I BLANT CYLCH, MEITHRIN, DERBYN, BLWYDDYN 1 A 2
Rhif Elusen / Charity number: 1214728


BBC RADIO CYMRU
Y TALWRN
Y MEURYN – CERI WYN JONES
Neuadd Gymunedol Waunfawr, ger Aberystwyth
Nos Fawrth, 14eg o Orffennaf, 7yh
Y FFOADURIAID V DROS YR ABER
TIR IARLL V TWTIL
CROESO CYNNES I BAWB
Gwrandewch ar SOUNDS


£20
Y DYDD / A DAY
Chwaraeon
urdd.cymru/ymuno
Aelodaeth £1 ar gael i'r rheiny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol
£1 membership for those receiving income support
GWERSYLL AML - CHWARAEON
ABERYSTWYTH
MULTI SPORT CAMP
3-4/08 & 24-25/08/26
BL/ YRS
4, 5 & 6
09:00 - 15:00
DYDDIAD CAU
CLOSING DATE
03/08/25
GAMPFA
CANOLFAN HAMDDEN
PLASCRUG
SPORTS HALL
GWEITHGAREDDAU.URDD.CYMRU
07929715983
rhiannonsim@urdd.org










PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Canolfan Chwaraeon Sports Centre

Sport Aber

# Campau'r Campws 2026

Chwaraeon a gweithgareddau hamdden hwylus di-breswyl i blant 8-14 oed

Wythnos 1: **20-24 Gorffennaf 2026**
Wythnos 2: **27-31 Gorffennaf 2026**



## Annwyl Riant neu Warcheidwad,

Mae'r rhaglen arbennig hon wedi ei chynllunio er mwyn i blant o bob lefel fedru profi a mwynhau nifer o weithgareddau chwaraeon. Bydd pob plentyn yn cael ei neilltuo mewn i grwp bach yn ôl eu oedran. Byddant yn cael eu goruchwylio ar bob achlysur gan staff caredig a gofalus. Bydd pob aelod o staff Campau'r Campws naill ai'n athro/athrawes cymwys neu'n hyfforddwr ac wedi cael prawf DBS. Cost yr wythnos fydd £150 i bawb. Bydd gostyngiad o 10% i ddau neu fwy o blant o'r un teulu neu os ydych yn archebu lle o flaen law ar gyfer mwy nag un gwersyll.

Mae'r Gwersyll Haf yma yn ddelfrydol i'ch plentyn dreulio amser yn ystod gwyliau'r haf i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd a phlant eraill, ac i ddefnyddio eu hegni a chael lot o hwyl.

### Am fwy o wybodaeth:

https://www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/kids/campaurcampws/

Darren Hathaway, Pennaeth Chwaraeon/Dewi Phillips, Swyddog Datblygu Masnachol,
Canolfan Chwaraeon, Aberystwyth University,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AR

E-bost: chwaraeon@aber.ac.uk

### Amserlen yn cynnwys:

- Polo-dwr
- Athletau
- Frisbi
- Badminton
- Rygbi-tag
- Pêl Rwyd
- Dringo
- Gweledigaeth nos
- Olympics Bach
- Pêl fainc
- Aml sgiliau
- Ymweliad a'r Sinema
- Nofio
- Goroesi mewn argyfwng
- Hoci Dan Do
- Pêl Droed
- Dawns
- Pel-Osgoi (Dodgeball)

*Gan ddibynnu ar oed a gallu

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Canolfan Chwaraeon Sports Centre

Sport Aber

# Campus Sports 2026

Fun non-residential sport and leisure activities for children aged 8-14

Week 1: **20-24 July 2026**
Week 2: **27-31 July 2026**



## Dear Parent or Guardian,

Once again, Aberystwyth University Sports Centre is offering 'CAMPUS SPORTS' multi-activity weeks for children between the ages of 8 and 14. This special programme is designed so that children of all abilities are able to experience and enjoy many varied sporting and recreational activities. Each child will be allocated to a small group according to their age. They will be supervised at all times by friendly and caring staff. Safety comes first at Aberystwyth University and all Campus Sports staff are either qualified teachers or coaches and will have undertaken a DBS check. The cost per week will be £150 for all. There is a discount of 10% for 2 or more children from the same family or if you book in advance for more than one camp.

This Summer Camp is ideal for your children to spend time during the Summer vacation to learn new skills, meet other children, let off some of their boundless energy and have lots of fun.

### For further information:

https://www.aber.ac.uk/en/sportscentre/kids/campussports/

Darren Hathaway, Head of Sport/Dewi Phillips, Commercial Development Officer,
Sports Centre, Aberystwyth University,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AR

Email: sports@aber.ac.uk

### Activities include:

- Waterpolo
- Athletics
- Ultimate-Frisbee
- Badminton
- Dodgeball
- Tag-Rugby
- Netball
- Climbing
- Night Vision
- Mini-Olympics
- Bench-Ball
- Multi-skills
- Cinema Visit
- Swimming
- Emergency Survival
- Indoor Hockey
- Football
- Dance

*Dependent on ability and age




**#HafAradGoch** 🌞

Rydym yn hynod o hapus i gyhoeddi mi fyddwn eleni eto yn cynnig diwrnodau creadigol! Diwrnodau llawn gweithgareddau creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

📅 Dyddiadau ir dyddiadur : 18fed + 19eg o fis Awst 9:30yb-3:30yp

£20 y dydd

I blant blynyddoedd 2-6

📨 Cysylltwch gyda [anne@aradgoch.org](mailto:anne@aradgoch.org) i gofrestru neu am fwy o wybodaeth.







Bydd pob archeb a wneir gyda'r côd hwn yn codi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

*Every order placed with this code will raise money for our PTA*